**Bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio at ddibenion cydymffurfio â Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 ac ni fydd yn cael ei datgelu oddi allan i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a'r Heddlu.**

**Sylwch fod unrhyw wybodaeth berthnasol i bobl sydd ar y ffurflen hon y cael ei derbyn ar y ddealltwriaeth eu bod yn cytuno i'r wybodaeth gael ei defnyddio fel hyn.**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**
**Yr Adain Drwyddedu**

**LARYMAU TRESMASWYR CLYWEDOL**
**HYSBYSIAD I'R HEDDLU AM DDEILIAID ALLWEDDI WEDI'U HENWEBU**
**FFURFLEN A**

i. Mae Gorchymyn Rheoli Sŵn (Cod Ymarfer ar Sŵn o Larymau Tresmaswyr Clywedol) 1981 (Offeryn Statudol 1981 Rhif 1829) yn rhoi arweiniad ar ddulliau o leihau amlder achosi niwsans oherwydd sŵn larymau. Os ydych yn caniatáu i'ch larwm seinio'n ddiangen, fe all camau gael eu cymryd yn eich erbyn dan Adrannau 80 ac 82 o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990. Felly, mae er eich lles eich hun i gadw at drefnau'r cod ymarfer, y gallwch ei brynu yn siopau llyfrau'r Llywodraeth neu drwy werthwyr llyfrau. Dan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, mae gan yr awdurdod lleol bŵer i fynd i mewn i eiddo er mwyn tawelu larymau pan na ellir cysylltu â deiliaid allweddi. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i larymau tresmaswyr clywedol sy'n seinio am ugain munud yn ddi-dor neu am un awr yn ysbeidiol ac sy'n debygol o roi achos rhesymol am aflonyddwch i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr eiddo.

ii. Mae paragraff 5 y cod ymarfer yn datgan y dylai deiliad y larwm, cyn pen 48 awr ar ôl gosod system larwm newydd neu fabwysiadu un presennol, hysbysu'r heddlu lleol o enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn o leiaf 2 ddeiliad allweddi ac y dylai deiliad y larwm, ar yr un pryd, hysbysu adran leol iechyd yr amgylchedd y gosodwyd y larwm newydd neu ei fod wedi cymryd cyfrifoldeb dros system larwm bresennol. Mae'r cod yn datgan hefyd y dylai deiliaid larwm hysbysu newidiadau i ddeiliaid allweddi enwebedig i'r heddlu o fewn 24 awr.

iii. Dylid defnyddio'r ffurflen hon i hysbysu'r heddlu am drefniadau deiliaid allweddi ar gyfer gosodiad presennol neu osodiad newydd neu i roi gwybod iddynt am newid o ran deiliad larwm neu ddeiliad allwedd ar gyfer gosodiad presennol. Dylid defnyddio Ffurflen B i roi gwybod i'r awdurdod lleol iechyd yr amgylchedd bod gosodiad newydd wedi'i wneud neu eich bod wedi cymryd cyfrifoldeb am osodiad presennol.

iv. Dylech lenwi Adran 7 y ffurflen dim ond os oes dyfais wedi'i gosod ar y gosodiad a fydd yn atal y larwm clywedol yn awtomatig rhag seinio peth amser ar ôl iddo gael ei actifadu.

v. Dylech lenwi Adran 7 (i) y ffurflen dim ond os ydych wedi gofyn i'r awdurdod lleol gytuno ar amser ymateb o fwy na 20 munud (gwelwch baragraff 6.2 a 6.3 y cod ymarfer).

I'r UWCH SWYDDOG, Gorsaf Heddlu……………………………………………….

Fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am y larwm tresmaswyr clywedol sydd wedi'i osod yn yr eiddo a nodir yn (2) isod, rwy'n dymuno rhoi gwybod i chi mai enwau fy neiliaid allwedd wedi'u henwebu yw'r rhai a ddangosir yn (4) isod. Bydd un neu'r llall ohonynt bob amser yn mynychu ac yn gyfrifol am ddistewi'r larwm cyn pen 20 munud, neu'r fath gyfnod hwy ag a gytunwyd gyda'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig, ar ôl cael rhybudd bod y larwm yn seinio.*

1. Natur y gosodiad (ticiwch y blwch priodol)

Gosodiad newydd ☐ Gosodiad presennol ☐

2. Eiddo lle gosodwyd y larwm

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post)
……………………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………………

Enw'r deiliad…………………………………………………………………………………………………………

3. Unigolyn sy'n gyfrifol am y larwm (deiliad y larwm)

Enw | Cyfeiriad Cartref (gan gynnwys cod post) | Cyfeiriad y busnes (gan gynnwys cod post)

Ffôn: Ffôn:

**AIA 1/5**

4. Deiliaid allweddi wedi'u henwebu (gallai un fod yn ddeiliad y larwm)

Enw | Cyfeiriad Cartref (gan gynnwys cod post) | Cyfeiriad y busnes (gan gynnwys cod post)

1.

Ffôn: Ffôn:

2.

Ffôn: Ffôn:

oni bai y gofynnwyd yn wahanol, fel arfer cysylltir â deiliad allwedd 1 i ddechrau. Dylid ychwanegu enwau unrhyw ddeiliaid allweddi ychwanegol ar ddiwedd y ffurflen.

5. Perchennog y larwm (os yw'n wahanol i 3; e.e. cwmni diogelwch)

Enw …………………………………………………………………………………………………………

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post) ………………………………………………………………………………

…………………………………………………………Rhif ffôn…………………………………………………

6. Contract cynnal a chadw larwm (os yw'n wahanol i 5)

Enw …………………………………………………………………………………………………………

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post) ………………………………………………………………………………

…………………………………………………………Rhif ffôn…………………………………………………

7. Dyfais atal awtomatig (gweler Nodyn iv.)

Mae dyfais atal awtomatig wedi'i gosod i'r system ac mae wedi'i hamseru i atal y larwm clywedol rhag seinio............ munud ar ôl iddo ddechrau seinio.

(i) Rwyf wedi gofyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gytuno ar amser ymateb o ............ o funudau.

Llofnodwyd………………………………………………….(Deiliad y Larwm)

**<u>At ddefnydd yr Heddlu yn unig</u>**

Cafwyd hysbysiad bod yr awdurdod lleol wedi cytuno ar amser ymateb o ............ o funudau.